**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

**DYDD IAU, 14eg MAI, 2015 am 10.30am.**

**Cyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 12fed Mai 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1 Datganiad Buddiant:**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

**1.** Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
**2.** Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYLLID CYMUNEDAU YN GYNTAF 2015/16**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y newyddion diweddaraf ynglŷn â thoriadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Grant Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2015/16 a'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith y toriadau.

**Tudalennau 1 – 26**

3 **STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU 2015-18 GWASANAETH LLYFRGELLOEDD RHONDDA CYNON TAF.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi cyfle i aelodau o'r Cabinet drafod fersiwn drafft Strategaeth a Chynllun Gweithredu 2015-2018 Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf.

**Tudalennau 27 – 54**

4 **AILDREFNU DOSBARTHIADAU CYMORTH DYSGU AR GYFER DISGYBLION SYDD AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau cyhoeddi'r hysbysiadau cyhoeddus ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu darpariaeth dosbarthiadau cymorth dysgu prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf.

**Tudalennau 55 - 60**

5 **TRAFOD YR ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL GYDA CHYNGHORAU CYMUNED**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu (drafft) sy wedi'i chytuno gan Bwyllgor Craffu Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol.

**Tudalennau 61 - 66**

6 **CARTREFI RhCT - TREFNIADAU'R BWRDD LLYWODRAETHU.**

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd y Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am y newidiadau i drefniadau'r Bwrdd Llywodraethu ar gyfer Cartrefi Rhondda Cynon Taf, yn dilyn mabwysiadu Rheolau Enghreifftiol Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru.

**Tudalennau 67- 68**

7 **MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw faterion brys fel y mae'r Cadeirydd yn gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**